

CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
4/01/2016

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs C Lloyd, Is-gadeirydd R G Parry, Mrs E Jones, Mrs S Jones, Mrs H Williams, Mrs S Roberts, Ms M E Evans, Mr B Veevers, PCSO Marcia Hughes a PCSO Dennis Owen.

PRESENT: Chairman Mrs C Lloyd, Vice Chairman R G Parry, Mrs E Jones, Mrs S Jones, Mrs H Williams, Mrs S Roberts, Ms M E Evans, Mr B Veevers, PCSO Marcia Hughes and PCSO Dennis Owen

YMDDIHEURIADAU: Derbyniwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb oddi wrth Ms M Williams a'r Cynghorwyr Nicola Roberts a Dylan Rees.

APOLOGIES: Apologies for their absence was received from Ms M Williams and Councillors Nicola Roberts and Dylan Rees.

COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4/11/2015 yn gofnod cywir.

MINUTES: Minutes of the meeting held on 4/11/2015 were accepted as true minutes.

MATERION YN CODI:

1. Cloc y pentref. Cloc y pentref wedi stopio. Penderfynwyd rhoi caniatâd parhaol i Mr Neville Williams gysylltu'n uniongyrchol a'r Mri J B Joyce i drafod unrhyw broblem yn ymwneud â'r cloc ac i roi gwybod i'r Clerc canlyniad unrhyw drafodaeth o'r fath.

MATTERS ARISING:

1. Village Clock. Village clock had stopped. It was decided to give Mr Neville Williams ongoing permission to contact Messrs J B Joyce directly to discuss any problems appertaining to the clock, and to inform the Clerk of the results of such discussions.

2. Wal derfyn eiddo Mrs Bown. O ganlyniad i'r tywydd gwael nid oedd y gwaith ar drwsio'r wal wedi'i gychwyn. Cadarnhaodd Mr Veevers y byddai'r gwaith yn cychwyn cyn gynted â phosib..

2. Boundary wall at Mrs Bown's property. Due to the inclement weather, the work of repairing the wall had not been commenced. Mr Veevers confirmed that work on the wall would commence as soon as possible.

GOHEBIAETH

1. Grŵp Cynefin. Diwrnod Agored Bro Crigyll, Bryngwran 5.01.2016 i'w gynnal yn yr Iorwerth Arms, Bryngwran. Er gwybodaeth.

CORRESPONDENCE

1. Grŵp Cynefin. Bro Crigyll Bryngwran Open Day 5.01.16 to be held in the Iorwerth Arms. For information.

2. Heddlu Gogledd Cymru.

(a) E-bost at y Clerc yn gofyn am wybodaeth cyswllt personol ar gyfer pob cynghorydd. Y Clerc wedi ymateb bod yr wybodaeth ofynnol ar gael ar wefan y Cyngor Cymuned. Pawb yn fodlon ar ymateb y Clerc.

2. North Wales Police.

(a) Email to the Clerk requesting personal contact details for all councillors. The Clerk had informed them that information requested was to be found on the Community Council's website. All happy with the Clerk's response.

(b) Gwybodaeth am wefan newydd Gwarchod y Gymdogaeth fydd yn cael ei hail lansio ym mis Rhagfyr 2015.

3. Cyngor Sir Ynys Môn. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref.

(a) Rhybudd Derbyn Cais fel a ganlyn:

(i) Cais llawn i leoli area heulol 5MW ynghyd â chreu trac mynediad i gerbydau, codi cynhwysydd ar gyfer yr is-orsaf, adeiladu gwrthdroydd, ffensys diogelwch, camerâu diogelwch a mynedfa newydd i gerbydau ar dir yn Cefn Cae For, Gwalchmai. Dywedodd y Cyngorydd R G Parry bod addewid pendant wedi ei roi na fydd Gwalchmai yn cael ei ddefnyddio i gael mynediad i'r fferm heulol.

(ii) Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu i greu ports ac ystafell haul yn Penrhos, Gwalchmai.

(b) Adroddiad Sylwadau'r Cynllun Adnau. Er gwybodaeth

(c) Arolwg Llety I Ymwelwyr Ynys Môn 2015. Er gwybodaeth.

(d) Ymgynghoriad Cyllid Cyngor Sir Ynys Môn 2016-2017. Copi o lythyr drafft a dderbyniwyd gan John R Jones Prif swyddog ar y cyd Medrwn Môn ar sylwadau ar gyllideb y Cyngor. Er gwybodaeth.

(d) Ymgynghoriad ar ffordd newydd o osod Tai Cymdeithasol ar Ynys Môn. Er gwybodaeth.

4. Un Llais Cymru.

(a) Adroddiad diweddaraf gan Mike Harriman, cynrychiolydd Unllais Cymru ar y Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Betsi Cadwaladr. Er gwybodaeth.

(b) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cynllunio Cadarnhaol. Er gwybodaeth.

(c) Enwebiadau ar gyfer Anrhydeddau Blwyddyn Newydd 2017. Er gwybodaeth.

(d) Lansio Ymgynghoriad ar

(b) Information regarding the relaunching of the new Neighbourhood Watch website in December 2015.

3. Isle of Anglesey County Council. Town and Country Planning Act.

(a) Full application for the siting of a 5MW solar array farm together with the creation of an access track, erection of a substation container cabinet, inverter buildings, security fencing, security cameras and a new vehicular access on land at Cefn Cae For, Gwalchmai. Councillor R G Parry reported that a firm promise had been given that Gwalchmai would not be used to access the solar farm.

(ii) Full application for alterations and extensions to create a porch and sunroom at Penrhos, Gwalchmai.

(b) Deposit Plan Representation Report. For information.

(c) Anglesey Visitor Accommodation Survey 2015. For information.

(d) 2016-2017 Anglesey County Council Funding Consultation. Copy of a draft letter from John R Jones, Joint Chief Officer, Medrwn Mon on comments on the Council's budget. For information.

(d) Consultation on a new way of allocating Social Housing on Anglesey. For information.

4. One Voice Wales.

(a) Latest report from Mike Harriman, One Voice Wales' representative on Betsi Cadwaladr's Stakeholder Reference Group. For information.

(b) Planning (Wales) Act 2015. Publication of the Positive Planning Implementation Plan. For information.

(c) Nominations for New Year Honours 2017. For information.

(d) Launch of Public Health Outcomes

Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd. Er gwybodaeth.

(e) Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft. Er gwybodaeth

5. Llywodraeth Cymru.

(a) Datganiad Ysgrifenedig ar Dryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru. Er gwybodaeth.

(b) Penodi Is-gadeirydd ac Aelodau Annibynnol i GIG Cymru. Er gwybodaeth.

(c) Adolygiad o Ddiogelwch Cefnffyrdd yng Nghymru. Er gwybodaeth.

6. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Her Iechyd Cymru. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 2015. Er gwybodaeth.

7. Cais am gyfraniad. Derbyniwyd 5 cais am gyfraniad. Penderfynwyd gwrthod pob cais.

ARIANNOL.

Cafwyd adroddiad ar sefyllfa ariannol y Cyngor gan y Clerc.

1. Archebion 2016/17.

Penderfynwyd gosod yr un archeb a'r llynedd sef £6500 a phenderfynu rhoi £1000 o'r archeb tuag at yr hyn oedd yn ofynnol i Walchmai gyfrannu at Eisteddfod Genedlaethol 12017.

2. Anfoneb oddi wrth Mr H G Hughes am gyfieithu ar y pryd ym mis Hydref **£35.00** Y Clerc i dalu'r anfoneb.

UNRHYW FATER ARALL

1. Trafodwyd rhywbeth i'w roi i ddal y torchau pabi o gwmpas y cloc. Penderfynwyd ei drafod ymhellach yn

Framework Consultation. For information.

(e) Draft Local Government (Wales) Bill. For information.

5. Welsh Government.

(a) Transparency of Remuneration for Senior Managers in the Devolved Public Sector in Wales. For information.

(b) Appointment of Vice Chairman and Independent Members for NHS Wales. For information.

(c) Road Safety Review across trunk roads in Wales. For information.

6. Betsi Cadwaladr University Health Board. Health Challenge Wales. Public Health Executive Director's Annual Report 2015. For information.

7. Application for donation. 5 applications were received. It was decided to refuse all applications.

FINANCIAL.

The Clerk reported on the Council's Financial situation.

1. Precepts 2016/17.

It was decided to set the same precept as last year i.e. £6500 and it was also decided to contribute £1000 of the precept towards Gwalchmai's required contribution to the 2017 National Eisteddfod.

2. Invoice for £35.00 from Mr H G Hughes for interpreting at the the October meeting. The Clerk to pay the invoice.

ANY OTHER MATTER

1. Something to hold the poppy wreaths Around the clock was discussed. It was decided to discuss further in the next

y cyfarfod nesaf.

CYFARFOD NESAF: Cynhelir y
cyfarfod nesaf nos Lun 1/2/2016
am 7pm yng Nghanolfan yr Henoed.

meeting.

NEXT MEETING: The next meeting
will be held on Monday 1/2/2016 at the
Pensioners Hall at 7pm.